

Tasg 2

Y Bleidd-ddyn a'r Lleuad Iawn

Mae digon o straeon am fleidd-ddynion i'w cael ar draws y byd. Defnyddiwch y we i chwilio am straeon eraill, gan grynhoi eich hoff stori ar un ochr tudalen A4. Wedyn, gwnewch lun o'r bleidd-ddyn yn y stori i gyd-fynd â hi.

Fel dosbarth wedyn, beth am gasglu'r straeon i gyd at ei gilydd mewn llyfr. Beth am ychwanegu:

- teitl i'r casgliad
- clawr trawiadol
- broliant i'r llyfr
- ymgyrch farchnata i hybu gwerthu'r llyfr. Gall yr ymgyrch fod yn un ar y gwefannau cymdeithasol neu bosteri i'w gosod o gwmpas y lle.

Wedyn, chwiliwch yn y llyfrgell neu gartref am gopi o'r gyfrol **Lleuad yn Olau** gan T. Llew Jones. Mae hon yn llawn straeon rhyfedd a difyr.